# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)01-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 13 Ionawr 2009

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

William Graham, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sulafa Halstead, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau

Sian Wilkins, Pennaeth y Gwasanaeth Deddfwriaeth a Siambr

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Llongyfarchodd y Pwyllgor Busnes Kirsty Williams ar gael ei hethol yn Arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol a diolch iddi am ei chyfraniad i waith y Pwyllgor Busnes dros ei chyfnod fel Rheolwr Busnes. Nodwyd hefyd y byddai Peter Black yn cael ei ethol i'r Pwyllgor Busnes yn ei lle.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)33-08 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 9 Rhagfyr 2008**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, cânt eu cyfieithu yn barod i gael eu cyhoeddi.

**Cam i'w gymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)01-09(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor y byddai cynnig yn cael ei gyflwyno i atal Rheolau Sefydlog, i ddwyn ymlaen gynigion i ethol aelodau i bwyllgorau.

3.2 Cytunodd y pwyllgor na ddylai'r cyfnod pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3.3 Cytunodd y pwyllgor ar drefn busnes ar gyfer 13 a 14 Ionawr 2009.

**Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)01-09(p2)**

3.5 Nododd y pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth am y tair wythnos nesaf.

**Amserlen Busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth am y 3 wythnos nesaf - BC(3)01-09(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth a ganlyn:

Dadl ar Gynigion heb Ddyddiad Trafod  (NNDM4095) ar Gaza (60 munud) ar 21 Ionawr; a

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar Dlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw'r Ateb (60 munud) ar 4 Chwefror.

3.6 Cytunodd y pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.7 Cytunodd y pwyllgor ar drefn Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Pwyllgorau**

**Llythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid - BC(3)01-09(p4)**

4.1 Ystyriodd y Pwyllgor Busnes lythyr oddi wrth Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn gofyn am amseroedd cyfarfod wythnosol. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i wahodd y Cadeirydd i'w gyfarfod nesaf i drafod y cais.

**Cais gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal cyfarfod ffurfiol y tu allan i Gaerdydd, yn Aberhonddu - BC(3)01-09(p5)**

4.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal cyfarfod ffurfiol y tu allan i Gaerdydd, yn Aberhonddu ddydd Iau 5 Chwefror, fel rhan o'i ymchwiliad i gynhyrchu a hybu bwyd o Gymru.

**Cais gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i ymweld â Brwsel - BC(3)01-09(p6)**

4.3 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r cais gan y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol i ymweld â Brwsel ar 10 - 11 Chwefror, fel rhan o'i gyfrifoldeb i ystyried materion yr Undeb Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru.

**5. Unrhyw fater arall**

5.1 Cyfeiriodd Arweinydd y Tŷ at gyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor ar y Gorchymyn arfaethedig Tai Fforddiadwy, a oedd wedi'i drefnu ar gyfer dydd Llun, 12 Ionawr.  Ail-adroddodd y Pwyllgor Busnes ei farn y dylai unrhyw bwyllgor oedd yn bwriadu cyfarfod y tu allan i'w amseroedd arferol ofyn am ganiatâd y Pwyllgor Busnes yn y lle cyntaf.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**